

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuencid Tysul Youth Centre, Llandysul ar 9 Ionawr 2012**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuencid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 9 January 2012**

**Yn Bresennol/Present:** Cyng/Cllr Tom Cowcher Mrs Eileen Curry (Chair/Cadeirydd) Douglas Davies Peter Davies Mrs Philippa Davies Keith Evans Terry Griffiths Andrew Howell a/and Mrs Carolyn Reed-Rees

**Personal** - Penderfynwyd estyn ein dymuniadau gorau i'r Cyng Wyn Evans ar ôl ei driniaeth yn yr ysbyty / It was decided to extend our best wishes to Cllr Wyn Evans after his hospital treatment.

- 1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies were received from:- Cyng/Cllrs Richard Anwyl Beth Davies Peter Davies Philip Marchant a/and Breian Teifi
- 2 **Datgelu Buddiannau Declarations of Interest:** Llandysul Family Centre – Cyng / Cllrs Mrs Philippa Davies Terry Griffiths and Andrew Howell a gadawyd yr ystafell / and left the room. Cyng / Cllr Keith Evans (Gollyngiad / Dispensation)
- 3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2011 yn gywir, yn unol â diwygiad, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd/Minutes of monthly meeting held on 12 December 2011 were accepted as correct, subject to an amendment and signed by the Chair.
- 4 **Materion yn Codi:-** Tynnwyd sylw'r Clerc at y ffaith y dylai adran “8” y cofnodion ddarlenn “ar eu menter eu hunain” mewn perthynas â'r biniau graean. Roedd nifer dda wedi mynychu'r gwasanaeth carolau yn “Hen Gapel Llwynrhydowen”. Bydd Canolfan Dŵr Llandysul Aqua Centre yn cwblhau'r gwaith cyn diwedd mis Ionawr. Cafwyd adroddiad gan Gyng Andrew Howell am yr ohebiaeth a gafwyd fis diwethaf wrth y gwasanaeth Tân ac Achub Ciosgau Coch – bydd Ceredigion yn adrodd am y cynnydd yn ystod cyfarfod a gynhelir yn Nhre-groes.
- 4 **Matters Arising:-** It was brought to the Clerk's attention that section “8” of the minutes should read “on a self help basis” in connection with the grit bins. The Carol service at “Hen Gapel Llwynrhydowen” was well attended. Canolfan Dŵr Llandysul Aqua Centre will complete the work before the end of January. Cllr Andrew Howell gave a report on the Fire & Rescue correspondence received last month. Red Kiosks - Ceredigion will report on progress at a meeting to be held at Tregroes.
- 5 **Rhoddion:-** (Datgeliadau - gweler “2” uchod”)
  - i) Lleisiau Bro Eirwyn – Mae eu sefyllfa wedi newid erbyn hyn a byddant yn dod yn ôl atom.
  - ii) Ieuencid Tysul Youth – Ni chafwyd gwybodaeth bellach.
  - iii) Neuadd Pont-siân Hall – Rhoddwyd cyfarwyddyd i Bensaer ac rydym yn aros i glywed unrhyw newyddion pellach.
- 5 **Donations:-** (Declarations - see “2” above”)
  - i) Lleisiau Bro Eirwyn – Their situation has now changed and will get back to us.
  - ii) Ieuencid Tysul Youth – No further information received.
  - iii) Neuadd Pontsian Hall – Cllr Mrs Philippa Davies reported that an Architect has been instructed and we await hearing further.

**Rhoddion** - Parhad

iv) Eglwys Pont-siân Church – Rydym yn aros i glywed newyddion pellach.

v) Canolfan Deuluol Llandysul – (a133) - (gofynnwyd am £3,000 tuag at y costau rhedeg) Yn dilyn trafodaeth, cynigiodd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees y dylid rhoi £3,000, eiliwyd hyn gan Gyng Tom Cowcher ac fe'i dderbyniwyd. Pwysleisir y ffaith bod hwn yn daliad unigryw.

**6 Rheolau Sefydlog - Adolygiad:-**

Penderfynwyd cynnwys y diwygiad/diweddariad a gafwyd wrth ULIC sef “rhaid cyfeirio unrhyw dramgwydd neu dramgwydd honedig o’r cod ymddygiad gan Gynghorydd i Ombwdsman Cyhoeddus Cymru”. Nid oedd unrhyw ddiwygiadau pellach.

**7 Biniâu Halen/Graean** – Adroddwyd bod y graean wedi cael ei gasglu a'i storio. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i Gynghorwyr Keith Evans a Tom Cowcher i brynu cynhwyswyr plastig. Anfonir llythyr i Geredigion yn diolch iddynt am eu cymorth.

**8 Praesept:-** Dosbarthwyd gyda’r Agenda a Chofnodion taflen waith a oedd yn nodi'r sefyllfa ariannol i gynorthwyo gyda'r drafodaeth. Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylai'r praesept aros yr un fath, eiliwyd hyn gan Gyng Douglas Davies ac fe'i dderbyniwyd. (27.29 x 1,182.13 = £32,260.32).

**9 Gohebiaeth:-**

a) Cafwyd y canlynol wrth **Geredigion:-** cafwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ceredigion 2007-2022 – Ffurflen Sylwadau yr ymgynghoriad ar Newidiadau â Ffocws Arfaethedig (2011), ynghyd â'r Atodiad, nad yw'n cael effaith uniongyrchol ar y gymuned fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd y Clerc yn ymateb. Dyddiadau cyfarfodydd y pwyllgor Moeseg a Safonau – Cafwyd hysbysiad ynghylch dyddiadau'r cyfarfodydd er mwyn ystyried goddefebau. Balchder Pentrefi – Cafwyd cadarnhad y bydd cynrychiolwyr yn mynychu ein cyfarfod ym mis Chwefror. Penderfynwyd cynnal cyfarfod Is-Bwyllgor nos Lun nesaf, 16.1.2012, ac y bydd y Clerc yn dosbarthu hysbysiadau ar unwaith. Archwiliwyd safon y gwaith Glanhau Palmentydd yn Llandysul a nodwyd bod angen gwneud gwelliannau.

**Donations** - Continued

iv) Eglwys Ponsian Church – We await hearing further.

v) Llandysul Family Centre – (s133) - (request for £3,000 towards running costs) After a discussion, Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees proposed £3,000, this was seconded by Cllr Tom Cowcher and carried. It is to be emphasised that this is a one off payment.

**6 Standing Orders – Review:-** It was decided to incorporate the amendment/update received from OVW being that “any breach or an alleged breach of the code of conduct by a Councillor must be referred to the Public Ombudsman for Wales”. There were no further amendments.

**7 Salt/Grit Bins** – It was reported that the grit has now been collected and stored. Delegated authority was given to Cllrs Keith Evans and Tom Cowcher to purchase plastic containers. Letter to be sent to Ceredigion thanking for their assistance.

**8 Precept:-** Worksheet with financial situation had been circulated with the Agenda and Minutes to assist with the discussion. Cllr Keith Evans proposed the precept remained the same, this was seconded by Cllr Douglas Davies and carried. (27.29 x 1,182.13 = £32,260.32).

**9 Correspondence:-**

a) The following were received from **Ceredigion:-** Ceredigion Local Development Plan (LDP) 2007-2022 – Proposed Focused Changes consultation Representation Form (2011) was received together with the Addendum which, does not affect the community directly as previously reported, Clerk to respond. Ethics and Standards committee meeting dates – Notice of dates of meetings to consider dispensation was received. Balchder Pentrefi – Confirmation was received that representatives will be attending our February meeting. It was decided to hold a Sub-Committee meeting next Monday evening, 16.1.2012 and Clerk will send out notices urgently. Cleaning of Pavements at Llandysul has been checked and noted that improvement is required.

- b) **ULIC** – Deliwed gyda'r diwygiad/ diweddariad i Reolau Sefydlog dan “6” uchod.
- c) **Llywodraeth Cymru – Ysbyty Bronglais** – Cawsom sicrwydd y bydd y Fforwm clinigol Cenedlaethol yn sicrhau y bydd trefniadau newydd yn arwain at y canlyniadau iechyd gorau ag y bo modd.
- d) Bydd **Pawb a'i Farn** yn ymweld â Chastellnewydd Emlyn ar nos Iau, 26 Ionawr 2012 am 7.30pm, gan ddarlledu'n fyw oddi yno rhwng 9.00pm a 10.00pm.
- e) **Comisiwn Cynllunio Seilwaith IPC – Cais Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa i IPC** – Cawsom ein hysbysu y cynhelir “sesiynau galw heibio” ar 6 Ionawr 2011.
- f) **RWE npower renewables** – Cawsom ein hysbysu bod y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) wedi derbyn Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa
- g) **Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol** – cyhoeddwyd yr Adroddiad Ariannol Terfynol ar gyfer 2012/13.
- h) **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** – cafwyd Ymgynghoriad ynghylch Mesur Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) a rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd ymateb.
- i) **Cymdeithas Chwaraeon Llandysul** – Trafodwyd y llythyr a gafwyd yn ystod y cyfarfod ym mis Tachwedd. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau ynghylch cost biniau baw cŵn ychwanegol.
- j) Cafwyd **Clerks & Councils Direct**.
- k) Cafwyd **The Clerk**.
- l) **C A T h E M** – Cafwyd gohebiaeth.
- m) **Anfonebau**
- i) **Llinos Jones** – Cafwyd anfoneb am y swm o £148.20 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Rhagfyr a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- ii) **Compass Office Supplies** – Cafwyd anfoneb am y swm o £239.57 am ddeunydd swyddfa a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- b) **OVW** – Amendment/update to Standing Orders was dealt with under “6” above.
- c) **Welsh Government – Bronglais Hospital** – We were assured that the National clinical Forum will assure that new arrangements will lead to the best possible health outcome.
- d) **Pawb a'i Farn** (welsh programme) will visit Newcastle Emlyn on Thursday evening, 26 January 2012 at 7.30pm and will broadcast live between 9.00pm-10.00pm.
- e) **IPC Infrastructure Planning Commission – Brechfa Forest West Wind Farm Application to the IPC** - We were informed of “drop in sessions” held on 6 January 2011.
- f) **RWE npower renewables** – We were informed that the Brechfa Forest West Wind Farm has been accepted by the infrastructure Planning Commission (IPC)
- g) **Independent Remuneration Panel for Wales** – Final Annual Report for 2012/13 has now been published.
- h) **National Assembly for Wales - Consultation on Local Government Byelaws (Wales) Bill** was received and delegated authority was given to the Chair to respond.
- i) **Cymdeithas Chwaraeon Llandysul** – Letter received at the November meeting was discussed. Clerk to make enquiries as to the costs of additional dog litter bins.
- j) **Clerks & Councils Direct** was received.
- k) **The Clerk** was received.
- l) **H M R C** – Correspondence was received.
- m) **Invoices**
- i) **Llinos Jones** - Invoice was received for the December translating in the sum of £148.20 and passed for payment.
- ii) **Compass Office Supplies** – Invoice was received for stationery in the sum of £239.57 and passed for payment.

**10 Cinio Blynyddol** – 9 Mawrth 2012 – y lleoliad i'w gadarnhau.

**11 CCTV** – Mae Pc Dafydd Jones wedi cadarnhau y bydd yn cysylltu gyda'r aelodau i drefnu ymweliad ag Aberystwyth.

**10 Annual Dinner** – 9 March 2012 – location to be confirmed.

**11 CCTV** – Pc Dafydd Jones has confirmed that he will be contacting members to arrange a visit to Aberystwyth.

**12 Goleuadau Nadolig** – Nid oes unrhyw gamau pellach wedi cael eu cymryd ynghylch eu datblygu.

**13 Glanhau'r Strydoedd yn Llandysul /Glanhau'r Gymuned** – Bydd yr eitem hon yn aros ar yr agenda.

**14 Gwobr y Gymuned** – Penderfynwyd na fydd gwobrwyo yn y Cinio Blynyddol ym Mis Mawrth ac i ddanfôn y wybodaeth at sefydliadau ym mis Medi i geisio cael ymateb.

**15 Pobl Ifanc yn y Gymuned – Meini Prawf** – adroddodd Cyng Andrew Howell bod cynnydd yn cael ei sicrhau.

**16 Datblygiadau Blodau yn Llandysul – Dysglau Plannu** – Nid oedd unrhyw ddatblygiadau pellach.

**17 Cynllunio**: Cafwyd hysbysiad ynghylch Cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 11 Ionawr 2012.

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol (dan awdurdod dirprwyedig):-

Dolwilym, Ffordd Llanfair – Safle cysgodi wedi'i orchuddio ar gyfer ysmygwyr

Pant y Gogle, Rhydowen – 2 dyrbin gwynt 10kW Evoco ar fastiau monopole 15m.

Dolwilym – Newid defnydd darn o dir amaethyddol yn safle gardd breswyl a chadw twnelau polythen gardd sy'n bodoli eisoes.

Brynsegur, Maesyrcrugiau – Trosti tŷ allanol ar gyfer defnydd busnes a llety yn y cartref.

Llain gerllaw Gwelfryn, Rhydowen – Annedd  
Llain gerllaw Capel Bethel – Annedd

Caniatad Cynllunio

Dolwilym – Safle cysgodi wedi'i orchuddio ar gyfer ysmygwyr

**12 Christmas Lighting** – No further action taken re development.

**13 Street Cleaning at Llandysul /Community Clean** – To remain on agenda.

**14 Community Award** – It was decided that an award will not be given at the Annual Dinner in March and to send the information out to various organisations in September to try and get a response.

**15 Young People in the Community - Criteria** – Cllr Andrew Howell reported that progress is being made.

**16 Development of Llandysul Flowers – Planters** – No further development.

**17 Planning**: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 11 January 2012 was received.

The following plans were approved (under delegated authority):-

Dolwilym, Llanfair Road – Covered sheltered area to accommodate smokers

Pant y Gogle, Rhydowen – 2 Evoco 10kW wind turbines on 15m monopole masts.

Dolwilym – Change of use of part of agricultural land into residential garden area and retention of existing garden poly tunnels.

Brynsegur, Maesyrcrugiau – Conversion of outbuilding into business use and domestic accommodation.

Plot adj Gwelfryn, Rhydowen – Dwelling  
Plot adj Capel Bethel – Dwelling

Planning Permission

Dolwilym – Covered sheltered area to accommodate smokers